Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg

Astudiaeth Achos: Sganio er Diogelwch o fewn theatrau symudol, Vanguard

Sefyllfa

Oherwydd methiant critigol yn y to yn Ysbyty Tywysoges Cymru o fewn Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, bu'n rhaid adleoli gwasanaethau allweddol—gan gynnwys theatrau, Uned Gofal Dwys, a 200 o welyau—ar frys. Mae hyn wedi arwain at golli traean o'r capasiti llawdriniaethau ac endosgopi, a allai gael effaith ddifrifol ar amseroedd aros.

Heb gapasiti sbâr mewn safleoedd eraill nac yn y sector annibynnol, yr unig ddatrysiad oedd gosod theatrau symudol ac unedau endosgopi, Vanguard yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn gyflym.

Roedd cyflymder a hyblygrwydd yn hanfodol er mwyn adfer lefelau gwasanaeth a rheoli amrywiaeth o driniaethau o fewn mannau cyfyng, a blaenoriaethu achosion brys. Roedd rhestr eiddo yn ofyniad hanfodol er mwyn i'r unedau symudol berfformio llawdriniaethau, felly roedd angen brys i system rheoli rhestr eiddo gyflym, felly defnyddiwyd SupplyX.

Camau a Gymerwyd

- Gweithiwyd gyda Chyllid Cwm Taf Morgannwg, Tîm Systemau Cadwyn Gyflenwi Caffael PCGC a chyda Nyrsys Arweiniol, Rheolwyr Wardiau i hwyluso symud ac alinio Canolfannau Cost a Rhifau Pwyntiau Trosglwyddo.
- Nodwyd eitemau, eu lleoliadau a'u meintiau a ddefnyddiwyd o fewn yr adrannau yr effeithiwyd arnynt i helpu i gynllunio a hwyluso symud i'r unedau symudol a sefydlwyd.
- Dewiswyd a blaenoriaethwyd symud eitemau trosiant uchel a blaenoriaeth o leoliadau blaenorol i unedau symudol.

Canlyniad/ Manteision

- Yn gallu adolygu stoc yn ddigidol i'w drosglwyddo gan ddefnyddio SupplyX yn hytrach na gwneud hynny â llaw a all gymryd llawer o amser.
- Angen llai o adnoddau i archwilio stoc bresennol cyn symud gan fod y cyfan wedi'i gofnodi'n ddigidol o fewn system SupplyX sy'n cael ei harchwilio'n rheolaidd a'i chadw'n gyfredol.
- Gellir diwygio lefelau PAR newydd drwy gyfathrebu rhwng uwch staff clinigol a'r partner busnes i sicrhau nad oes gor-archebu eitemau ar gyfer y lle cyfyng ac a allai fod mewn perygl o ddod i ben neu gael eu colli a'u casglu yn rhywle arall.
- Yr amser a gymerwyd i sefydlu system rheoli rhestr eiddo trwy SupplyX mewn unedau symudol fel a ganlyn; Endosgopi Vanguard - 2 wythnos, Theatrau Vanguard - 8 wythnos, Ward Vanguard - 1 wythnos.

Cysylltwch â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg,
Cysylltwch gyda'r Arweinydd Sganio er Diogelwch gyda'ch ymholiadau **tracey.chatfield1@wales.nhs.uk**